

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
28 Ionawr 2025

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Tynnu'n Ôl Ryddhad Elusennol i Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2025 ("Rheoliadau 2025") yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") i dynnu cymhwysra ar gyfer rhyddhad ardrethi annomestig elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol yng Nghymru sy'n elusennau, o 1 Ebrill 2025 ymlaen.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae adran 43 o Ddeddf 1988 yn pennu'r amodau ar gyfer atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig mewn cysylltiad ag eiddo a feddiennir a ddangosir ar restr ardrethu leol. Pan fodlonir yr amodau hyn, cyfrifir y swm a godir yn unol ag Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988.
4. Mae adran 45 o Ddeddf 1988 yn pennu'r amodau ar gyfer atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig mewn cysylltiad ag eiddo heb ei feddiannu a ddangosir ar restr ardrethu leol. Pan fodlonir yr amodau hyn, cyfrifir y swm a godir yn unol ag Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988.
5. Mae paragraff 2 o Atodlen 4ZA a pharagraff 2 o Atodlen 4ZB yn darparu ar gyfer cyfrifo rhyddhad ardrethi elusennol ar gyfer eiddo a feddiennir ac eiddo heb ei feddiannu, yn y drefn honno. Lefel y rhyddhad yw 80% o'r atebolrwydd ar gyfer eiddo a feddiennir a 100% o'r atebolrwydd ar gyfer eiddo heb ei feddiannu, pan fo'r talwr ardrethi yn elusen neu'n ymddiriedolwr ar gyfer elusen ac y caiff yr amodau cymhwysra eraill eu bodloni.
6. Mae paragraff 8C o Atodlen 4ZA, mewn cysylltiad â Rhannau 2 a 3 o'r Atodlen honno, a pharagraff 2C o Atodlen 4ZB, mewn cysylltiad â Rhan 2 o'r Atodlen honno, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn y rhannau hynny at ddibenion amrywio neu dynnu'n ôl ryddhad.
7. Mae Rheoliadau 2025 yn ystyried diwygiadau a wneir i baragraff 2 o Atodlen 4ZB gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024 ("Deddf 2024"). Bydd adran 6 o Ddeddf 2024 yn mewnosod is-baragraffau newydd (3) i (8) ym mharagraff 2 o Atodlen 4ZB ac yn dod i rym ar yr un pryd â Rheoliadau 2025 (1 Ebrill 2025).
8. Mae Rheoliadau 2025 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, yn unol ag adran 143A(5)(h) a (i) o Ddeddf 1988.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Diben Rheoliadau 2025 yw tynnu cymhwysra ar gyfer rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol yng Nghymru, gan eu rhoi ar sail debyg i'r ysgolion hynny nad ydynt yn elusennau at ddibenion ardrethi annomestig, o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Nod hyn yw sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol yng Nghymru, drwy dynnu'r gostyngiad treth ar gyfer addysg breifat yn ôl, sef gostyngiad y telir amdano drwy gyllid cyhoeddus.
10. Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2025 yn mewnosod paragraff 2A yn Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988, i ddarparu nad yw paragraff 2 o'r Atodlen honno yn gymwys i eiddo yng Nghymru a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion ysgol annibynnol. Effaith hyn yw anghymhwysio ysgolion annibynnol rhag gallu cael rhyddhad ardrethi elusennol mewn cysylltiad ag eiddo a feddiennir yng Nghymru.
11. Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2025 yn mewnosod paragraff newydd 2(7A) i (7C) yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, i ddarparu nad yw paragraff 2(3) o'r Atodlen honno yn gymwys pan ymddengys y bydd y defnydd nesaf o'r eiddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion ysgol annibynnol. Effaith hyn yw anghymhwysio ysgolion annibynnol rhag gallu cael rhyddhad ardrethi elusennol mewn cysylltiad ag eiddo heb ei feddiannu yng Nghymru.
12. Diffinnir ystyr "independent school" ("*ysgol annibynnol*") yn adran 463 o Ddeddf Addysg 1996. I grynhoi, ystyr ysgol annibynnol yw unrhyw ysgol lle caiff addysg amser llawn ei darparu i bump neu ragor o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol ac nad yw'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol.
13. Mae eithriad rhag tynnu'r rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl wedi'i gynnwys mewn cysylltiad ag ysgol annibynnol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu addysg amser llawn i bersonau y cynhelir Cynllun Datblygu Unigol ar eu cyfer (fel y'i diffinnir gan adran 10 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018")). Effaith hyn yw sicrhau bod 'ysgolion arbennig annibynnol' yn parhau i fod yn gymwys i gael rhyddhad lle mae'r awdurdod lleol wedi lleoli'r rhan fwyaf o'r disgyblion yno o dan Gynllun Datblygu Unigol (CDU), i ddiwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol. O dan Ddeddf 2018, dim ond awdurdod lleol a all gynnal CDU ar gyfer dysgwr mewn ysgol annibynnol.

Ymgynghori

14. Yn 2020, cynhaliwyd [ymgyngoriad](#) ar gymhwysra ysgolion i gael rhyddhad ardrethi elusennol yng Nghymru. Cafodd yr ymgynghoriad 51 o ymatebion gan unigolion, ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff cynrychioliadol. Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau, yr oedd rhai ohonynt o blaid cynnal y trefniadau presennol ac eraill o blaid newid. Yr unig safbwynt mwyafrifol a ddeilliodd o'r ymgynghoriad oedd y dylai sefydliadau yn y sector cyhoeddus barhau i fod yn gymwys am ryddhad. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai unrhyw newid polisi yn y maes hwn yn destun ymgynghoriad pellach ar gynnydd penodol.

15. Yn 2024, cynhaliodd Llywodraeth Cymru [ymgyngoriad](#) ar y cynnig i dynnu rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol yng Nghymru. Cafodd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei [gyhoeddi](#) ar 28 Ionawr 2025. Cafodd yr ymgynghoriad 109 o ymatebion gan ysgolion annibynnol, cyrff cynrychioliadol, rhieni unigol disgyblion ysgolion annibynnol ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Yn gyffredinol, roedd aelodau unigol o'r cyhoedd o blaid y cynnig. Ar y cyfan, roedd ysgolion annibynnol, rhieni a chyrff cynrychioliadol yn gwrthwynebu'r cynnig, gan nodi pryderon am y potensial ar gyfer cynnydd mewn ffioedd, a fyddai, yn eu tyb hwy, yn arwain at rai disgyblion yn symud i ysgolion a gynhelir. Cafodd asesiad Llywodraeth Cymru o'r materion hyn ei nodi yn yr ymgynghoriad.

RHAN 2: ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr opsiynau

16. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno dau opsiwn mewn perthynas â rhyddhad ardrethi elusennol i ysgolion annibynnol yng Nghymru. Mae'r opsiynau a ystyriwyd fel a ganlyn:
- **Opsiwn 1 – Gwneud dim.** Byddai ysgolion annibynnol sy'n elusennau yn parhau i fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi elusennol. Ni fyddai angen unrhyw ddeddfwriaeth.
 - **Opsiwn 2 – Deddfu i dynnu rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol.** Byddai Rheoliadau 2025 yn cael eu gwneud, gan arwain at anghymwysu ysgolion annibynnol rhag gallu cael rhyddhad ardrethi elusennol.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Gwneud dim

Costau

17. Pe bai'r sefyllfa bresennol yn cael ei chynnal, byddai 17 o'r 83 o ysgolion annibynnol yng Nghymru yn parhau i gael rhyddhad ardrethi elusennol. Y gost o ddarparu rhyddhad i'r ysgolion hyn bob blwyddyn yw £1.3m. Fel rhan o'r llinell sylfaen bresennol, byddai hyn yn cynrychioli cost cyfle mewn perthynas â'r potensial am gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Manteision

18. Pe na bai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud i ryddhad ardrethi elusennol, byddai'r 17 o ysgolion annibynnol yng Nghymru sy'n elusennau yn parhau i elwa ar y budd hwn (nad yw ar gael i'r ysgolion hynny nad ydynt yn elusennau). Ni fyddai angen i'r ysgolion yr effeithir arnynt benderfynu sut i dalu'r gost ychwanegol hon ac ni fyddai'n cyfrannu at unrhyw gynnydd blynyddol yn y ffioedd a godir ganddynt.
19. Byddai cadw cysondeb o ran amodau cymhwysra ar gyfer pob math o elusen yn cefnogi polisi a phroses weinyddu syml ar gyfer yr agwedd hon ar y system ardrethi annomestig.

Opsiwn 2 – Deddfu i dynnu rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol

20. Mae crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y polisi wedi'i [gyhoeddi](#) ar wahân.

Costau

21. Prif effaith Rheoliadau 2025 fyddai cynnydd yn atebolrwydd ardrethi annomestig yr 17 o ysgolion annibynnol yr effeithir arnynt yng Nghymru, gan eu rhoi ar sail debyg i'r ysgolion annibynnol eraill (nad ydynt yn elusennau). Bydd y cynnydd yn yr atebolrwydd i dalu treth yn amrywio a byddai pob ysgol yn gallu dewis sut i addasu ei model busnes i ymateb i'r gost honno, fel y mae ysgolion annibynnol eraill eisoes yn ei wneud.
22. Ar hyn o bryd, gwerth cyfartalog y rhyddhad ardrethi elusennol a ddarperir i ysgolion yr effeithir arnynt yw tua £75,000. At ddibenion enghreifftiol, mae hyn yn cyfateb yn fras i'r incwm cyfartalog o ffioedd saith disgybl dibreswyl (yn seiliedig ar ffioedd a hysbyseb ar wefannau ysgolion yr effeithir arnynt). Yn seiliedig ar gyfanswm niferoedd y disgyblion a'r ffi gyfartalog ar gyfer disgyblion dibreswyl, amcangyfrifir y bydd yr atebolrwydd ychwanegol yn cyfateb i lai na 2% o'r incwm ffioedd cyffredinol.
23. Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol o ran maint a ffioedd pob ysgol. Bydd y rhai sy'n defnyddio eiddo mwy (gwerth uwch) yn wynebu atebolrwydd uwch i dalu ardrethi annomestig. O'r herwydd, disgwylir i ysgolion llai wynebu llai o gynnydd yn eu hatebolrwydd i dalu ardrethi.
24. O'r 17 o ysgolion annibynnol yr effeithir arnynt: mae chwech yn gweithredu o eiddo llai gyda gwerthoedd ardrethol hyd at £50,000; mae tair yn gweithredu o eiddo gyda gwerthoedd ardrethol oddeutu £100,000; ac mae'r wyth arall yn gweithredu o eiddo mwy gyda gwerthoedd ardrethol hyd at £350,000. Mae Tabl 1 yn cynnwys enghreifftiau o'r cynnydd mewn atebolrwydd a fyddai'n deillio o dynnu rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl, yn seiliedig ar ystod o werthoedd eiddo tybiannol.

Tabl 1: Newidiadau enghreifftiol i atebolrwydd oherwydd tynnu rhyddhad yn ôl

Gwerth ardrethol	Atebolrwydd gyda rhyddhad elusennol (80%)	Atebolrwydd heb rhyddhad elusennol	Atebolrwydd ychwanegol
£350,000	£39,760	£198,800	£159,040
£200,000	£22,720	£113,600	£90,880
£100,000	£11,360	£56,800	£45,440
£50,000	£5,680	£28,400	£22,480

Noder: Yn seiliedig ar y lluosydd dros dro a gyhoeddwyd ar gyfer 2025-26 (0.568).

25. Ar draws yr 17 o ysgolion yr effeithir arnynt, cyfanswm cost yr atebolrwydd ychwanegol fyddai oddeutu £1.3m y flwyddyn. Mae tua 6,200 o ddisgyblion yn yr ysgolion hynny. Felly, mae'r gost flynyddol ychwanegol yn cyfateb i £210 y disgybl ar gyfartaledd.
26. Nid yw Llywodraeth Cymru yn rhag-weld ei bod hi'n debygol iawn y bydd effaith sylweddol ar ffioedd cyfartalog, gan nad yw'r costau amcangyfrifedig hyn yn sylweddol. Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y byddai risg y byddai disgyblion yn symud i ysgolion a gynhelir, pe byddai cynnydd mewn ffioedd yn

arwain at benderfyniadau gan rieni i symud eu plant allan o ysgolion annibynnol.

27. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae ysgolion annibynnol yn gyffredinol wedi cynyddu eu ffioedd flwyddyn ar ôl blwyddyn ar lefel uwchlaw chwyddiant (Cyfrifiad Cyngor Ysgolion Annibynnol 2023), heb i gwymp yn niferoedd y disgyblion gael effaith andwyol ar eu hyfywedd. Mae ysgolion hefyd yn debygol o ddod o hyd i ffyrdd eraill o amsugno'r cynnydd yn eu hatebolrwydd yn llawn neu'n rhannol (e.e. lleihau gwargedau, cronfeydd wrth gefn neu wariant nad yw'n wariant hanfodol) yn hytrach na chynyddu ffioedd. Yn hynny o beth, nid ystyrir bod effeithiau anuniongyrchol y gellir eu nodi ar ddisgyblion, o ganlyniad i'r cynnig, yn debygol o ddigwydd.
28. Fodd bynnag, cydnabyddir y potensial y gallai fod cynnydd bach yn y costau i rai rhieni. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd nifer bach o ddisgyblion yn symud i ysgolion a gynhelir. Yn hynny o beth, ni fydd yn bosibl datgysylltu effaith Rheoliadau 2025 oddi wrth effaith y cynlluniau i ychwanegu TAW at ffioedd ysgolion annibynnol gan Lywodraeth y DU (sy'n cynrychioli effaith ariannol uwch).
29. Mae'r [Sefydliad Astudiaethau Cyllid](#) wedi amcangyfrif y bydd 3 i 7% o ddisgyblion o bosibl yn symud ysgolion yn y tymor canolig i'r tymor hwy o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i eithriadau treth. Mae hyn yn cynrychioli cyfran fach iawn (llai na 0.1%) o gyfanswm nifer y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir. Mae gan bob plentyn o oedran ysgol gorfodol hawl i le mewn ysgol a ariennir gan y wladwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddai'r sector a gynhelir yn gallu darparu ar gyfer unrhyw ddisgyblion ychwanegol.

Manteision

30. Byddai opsiwn 2 yn cyflawni cynnig polisi Llywodraeth Cymru i dynnu rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol sy'n elusennau. Y brif fantais fyddai sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol yng Nghymru, drwy dynnu'r gostyngiad treth ar gyfer addysg breifat yn ôl, sef gostyngiad y telir amdano drwy gyllid cyhoeddus. Byddai mwy o gyllid, sef tua £1.3m bob blwyddyn, ar gael ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol, oherwydd y cynnydd mewn refeniw ardrethi annomestig sy'n ddyledus gan ysgolion annibynnol.

Dewis opsiwn

31. Ni fyddai gwneud dim yn cyflawni cynnig Llywodraeth Cymru i dynnu rhyddhad ardrethi elusennol yn ôl o ysgolion annibynnol. Byddai arian cyhoeddus ar gyfer rhyddhad yn parhau i gefnogi addysg breifat yng Nghymru. Nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir, felly.
32. Opsiwn 2 yw'r dull gweithredu a ffefrir. Cyhoeddwyd hyn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn ymgynghoriad ar y cynnig penodol.

Dyletswyddau

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

33. Bydd sicrhau y caiff y defnydd o arian cyhoeddus i gefnogi'r sector preifat ei dargedu mewn ffordd briodol yn cefnogi rhai o nodau llesiant Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd gostyngiad yng nghost darparu rhyddhadau yn golygu y bydd mwy o gyllid ar gael i lywodraeth leol ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi'r cymunedau a wasanaethir ganddi, gan gynnwys mewn perthynas ag addysg a phobl ifanc.
34. Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at y nod llesiant sy'n anelu at Gymru fwy cyfartal, drwy dynnu'r gostyngiad treth ar gyfer addysg breifat yn ôl, sef gostyngiad y telir amdano drwy gyllid cyhoeddus. Bydd hyn yn golygu y bydd mwy o gyllid ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, er mwyn helpu i gefnogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Bydd unrhyw gyfraniad at ymdrechion i ddatblygu poblogaeth fedrus â lefelau addysg da hefyd yn helpu i gyflawni'r nod llesiant sy'n anelu at Gymru lewyrchus.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

35. Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i [gyhoeddi](#) ar wahân. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar hawliau'r plentyn. Mae'n ddisgwyliad sylfaenol i'r hawliau perthnasol gael eu cynnal o fewn yr addysg a gaiff pob plentyn ysgol yn y sector annibynnol a'r sector a gynhelir yng Nghymru.

Y Gymraeg

36. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y Gymraeg.

Cydraddoldeb

37. Ni nodwyd effeithiau penodol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, a fyddai'n effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Er bod rhai nodweddion cydraddoldeb yn cael eu cynrychioli'n dda ymhlith disgyblion yn yr ysgolion yr effeithir arnynt, nid yw hyn yn golygu y bydd unrhyw effaith anuniongyrchol y gellir ei nodi ar y grŵp hwnnw yn digwydd (neu y byddai hynny'n fwy tebygol o ddigwydd). Bydd unrhyw effeithiau sy'n codi yn fach iawn, oherwydd y potensial cyffredinol isel y bydd disgyblion yn symud o ysgolion yr effeithir arnynt.

Y sector gwirfoddol

38. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y sector gwirfoddol.

Cyfiawnder

39. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar y system gyfiawnder.

Asesu'r gystadleuaeth

40. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gynnal ar Reoliadau 2025 a bernir bod y risg o effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth yn isel. Nid yw ysgolion annibynnol mewn cystadleuaeth â mathau eraill o elusennau, a fydd yn parhau i fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi elusennol. O fewn y sector ysgolion

annibynnol, nid yw'r rhan fwyaf o weithredwyr yn elusennau ac nid ydynt yn cael rhyddhad ardrethi elusennol. Bydd y polisi yn sicrhau bod ysgolion annibynnol sy'n elusennau yn cael eu trin yn unol ag eraill sy'n gweithredu yn yr un sector, at ddibenion ardrethi annomestig.

Adolygu ar ôl gweithredu

41. Byddwn yn parhau i gael data ar ardrethi annomestig gan awdurdodau lleol ac Asiantaeth y Swyddfa Brisió bob blwyddyn. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro nifer a chost yr eiddo sy'n cael rhyddhad ardrethi elusennol.
42. Bydd Cyfrifiad Ysgolion Annibynnol blynyddol Llywodraeth Cymru yn darparu data i fonitro nifer y dysgwyr yn yr ysgolion annibynnol yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y polisi hwn. Mewn perthynas â'r potensial y bydd nifer bach iawn o ddisgyblion yn symud o ysgolion annibynnol, ni fydd yn bosibl datgysylltu effaith y polisi hwn o oddi wrth effaith y cynlluniau i ychwanegu TAW at ffioedd ysgolion annibynnol gan Lywodraeth y DU (sy'n cynrychioli effaith ariannol uwch). Nid yw'n debygol ychwaith y byddai modd gwahaniaethu rhwng y nifer bach o ddisgyblion a fyddai'n symud a'r amrywiadau arferol o ran niferoedd disgyblion.